# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 1

TROSOLWG

### 1 Trosolwg o'r Ddeddf

Mae'r Ddeddf hon wedi ei threfnu fel a ganlyn—

(a) mae Rhan 2 yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei drefniadaeth a'i brif swyddogaethau;

(b) mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu trethi datganoledig;

(c) mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau ymchwilio Awdurdod Cyllid Cymru, gan gynnwys darpariaeth ynghylch hysbysiadau sy'n gwneud gwybodaeth yn ofynnol ac ynghylch archwilio mangreoedd;

(d) mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosbau mewn perthynas â threthi datganoledig, ac mewn cysylltiad â hynny;

(e) mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth i log fod yn daladwy ar daliadau hwyr i Awdurdod Cyllid Cymru ac ar ad-daliadau gan Awdurdod Cyllid Cymru;

(f) mae Rhan 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch taliadau i Awdurdod Cyllid Cymru ac adennill symiau nas talwyd;

(g) mae Rhan 8 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau Awdurdod Cyllid Cymru ac apelau yn eu herbyn, ac mewn cysylltiad â hynny;

(h) mae Rhan 9 yn rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â threthi datganoledig;

(i) mae Rhan 10 yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 26/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, RHAN 1. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 26.4.2016, gweler **a. 194(1)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 26/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, RHAN 1.